12 Diwrnod y Nadolig 2022 - 8fed enillydd

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

# Clwb Rygbi Beddau Dan 10 oed

Mae gyda Bulldogs Beddau Dan 10 oed garfan gynhwysol fawr o fechgyn a merched. Mae'r rhan fwyaf o'r tîm wedi bod â'i gilydd ers y Tîm Dan 6 oed ac ers hynny mae gyda nhw berthynas glòs. Maen nhw'n deulu ar y cae ac oddi wrtho, lle mae'r chwaraewyr, yr hyfforddwyr a'u teuluoedd yn cyd-weithio ac yn cefnogi ei gilydd.




Eleni, fe deithiodd y tîm i Abertawe er mwyn chwarae mewn twrnamaint. Doedd gydag un tîm lleol ddim digon o chwaraewyr er mwyn cymryd rhan, a heb oedi, neidiodd chwaraewyr Beddau ar y cyfle i gynorthwyo'r tîm arall yma drwy droi eu crysau y tu mewn allan ac ymuno â'r "gwrthwynebwyr". Fe ymdrechon nhw'n llwyr er mwyn sgorio ceisiau a thaclo yn erbyn eu tîm eu hunain, y cyfan er mwyn cymrodoriaeth.